Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 23 Tachwedd 2018.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

93 : CYDNABYDDIAETHAU

Diolchodd yr Arglwydd Faer i ddisgyblion ac athrawon Ysgol Gynradd Hawthorn ac Emma Coulthard o Wasanaeth Cerdd y Cyngor oedd wedi'u gwahodd i berfformio cân a gyfansoddwyd gan Emma yn benodol ar gyfer lansiad Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd.

Hefyd croesawodd yr Arglwydd Faer ddisgyblion o'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans oedd yn arsylwi ar ran o'r cyfarfod ac oedd wedi cyfarfod â'r Arglwydd Faer a swyddogion o'r Swyddfa Brotocol a'r Gwasanaethau Democrataidd cyn y cyfarfod.

94 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Burke Davies, Congreve, P Hill-John, Morgan a Murphy.

Dymunodd yr Arglwydd Faer, ar ran y Cyngor, yn dda i'r Cynghorydd, oedd yn sâl ar hyn o bryd.

95 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau. -

| **Cynghorydd** | **Eitem** | **Buddiant** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 11 - Aelod Cabinet, Gofal Cymdeithasol. Iechyd a Lles – Datganiad. | Buddiant personol gan fod aelod o'r teulu'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. |
| Y Cynghorydd Hudson | Eitem 12 – Cynnig 1 | Buddiant Personol fel |

| | | |
|---|---|---|
| | | magwr didrwydded llai na 5 ci. |
| Y Cynghorydd McEvoy | Eitem 12 – Cynnig 1 | Buddiant Personol fel Aelod o Gynlluniad Cymru a gynigiodd ddiwygiad i fater Lucy's Law yn nadl ddiweddar y Cynulliad. |
| Y Cynghorydd Naughton | Eitem 13 – Cynnig 2 | Buddiant Personol gan fod aelod teulu'n dioddef o glefyd Alzheimer. |
| Y Cynghorydd Williams | Eitem 13 – Cynnig 2 | Buddiant Personol fel rheolwr o Fwrdd Rheoli Cartref homes. |
| Y Cynghorwyd Gavin Hill-John, Lay, Patel, Robson, Sandrey, Simmons a Stubbs | Eitem 16 – Bws Caerdydd – Penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol | Buddiant Personol fel Cyfarwyddwyr Anweithredol Bws Caerdydd, wedi'u penodi gan y Cyngor. |

96 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018 fel gwir gofnod a chawson nhw eu llofnodi gan y Cadeirydd, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

Cofnod Rhif: 85 - ADRODDIAD LLESIANT BLYNYDDOL STATUDOL 2017-18 Tudalen 104

Dileu: "Daeth un diwygiad i law mewn cysylltiad â'r argymhelliad yn yr adroddiad a gwahoddwyd y Cynghorydd Berman i gynnig y diwygiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Boyle." a'i ddisodli gyda:

"Daeth un diwygiad i law mewn cysylltiad â'r argymhelliad yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

Cynnig diwygiedig y Cabinet i ddarllen:

'Yng ngoleuni rhai pryderon a godwyd yn y llythyr gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, Argymhellir bod y Cyngor oedi ystyried yr Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol 2017-18 tan gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol, ac yn galw ar y Cabinet i ddiwygio'r adroddiad yn y cyfamser i sicrhau bod yr asesiadau cynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant y mae'n eu cynnwys yn adlewyrchu'n fwy cywir hyd a lled y cynnydd wedi'i adrodd yn erbyn targedau a dangosyddion perfformiad, yn benodol y rhai hynny sy'n ymwneud â diogelu pobl y ystyrir eu bod mewn perygl.'

Gwahoddwyd y Cynghorydd Berman i gynnig y diwygiad a eiliwyd gan y Cynghorydd Boyle."

Cofnod Rhif: 85 - ADRODDIAD LLESIANT BLYNYDDOL STATUDOL 2017-18 Tudalen 105

Cywiriad i’r bleidlais a gofnodwyd ar y diwygiad

| | |
|---|---|
| Cefnogi (31) | Y Cynghorwyr Sir Asghar Ali, Berman, Boyle, Carter, Cowan, Davies, Driscoll, Ford, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Howells, Hudson, Jenkins, Jones-Pritchard, Kelloway, Lancaster, McKerlich, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Keith Parry, Phillips, Robson, Sandrey, Taylor, Graham Thomas, Walker, Williams ac Wood. |
| Yn erbyn (37) | Y Cynghorwyr Sir Ahmed, Dilwar Ali, Bowden, Bowen Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Ebrahim, Elsmore, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Hinchey, Jacobsen, Keith Jones, Owen, Lay, Lent, Mackie, McGarry, Merry, Michael, Murphy, Jackie Parry, Patel, Sattar, Singh, Stubbs, Huw Thomas, Thorne, Weaver, Wild ac Wong. |
| Ddim yn bresennol (1) | Y Cynghorydd Sir McEvoy |

97 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn Cyhoeddus 1 – *Mr Troy Tyler*

Yn unol â Rheol 18 (i) Rheol Gweithdrefn y Cyngor ystyriwyd bod y cwestiwn wedi’i dynnu’n ôl gan yr oedd y cwestiynwr yn absennol.

Cwestiwn Cyhoeddus 2 – *Mr Lee Canning*

Mae newyddion ffug a honiadau anghywir wedi cymryd dros y cyfryngau cymdeithasol yn fawr, sut mae Cyngor Caerdydd yn sicrhau nad yw Newyddion Ffug yn cael eu gwthio ar ddamwain gan ei dudalennu cyfryngau cymdeithasol?

Ateb – *Y Cynghorydd Huw Thomas*

Mae’r Cyngor yn creu cynnwys i’w sianeli cyfryngau cymdeithasol, sy’n cael ei wirio a’i gydbwyso yn yr un modd â holl gyfathrebu arall y Cyngor.

Os ydy rhywun yn sylwi ar unrhyw beth ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei fod yn credu ei fod yn annymunol neu’n ‘newyddion ffug’, yna bydden ni’n gofyn iddo roi gwybod amdano.

Yn glir, os bydd unrhyw namau – a’n bod yn dod yn ymwybodol o’r namau hynny – yna bydd swyddogion am eu cywiro cyn gynted ag sy’n ymarferol posibl trwy naill ai dileu neu dawelu’r cynnwys fel nad oes modd i’n dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol ei weld. Yr hyn sy’n anos i’w reoli yw pan fo pobl yn ailadrodd

'newyddion ffug' am faterion sy'n ymwneud â'r Cyngor, ond peidio â'n tagio ni – nid oes ffordd hawdd i ni o weld neu gywiro'r sylwadau hynny.

Os bydd pobl yn gwneud sylwadau ar ein cyfryngau cymdeithasol sy'n anwir, yna byddwn naill ai'n eu tawelu, lle bo'n bosibl, neu'n ymateb gyda'r wybodaeth gywir. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio, os yw rhai pobl yn ysgrifennu rhywbeth rydych yn anghytuno ag ef, nid yw'n annymunol neu'n 'newyddion ffug' o reidrwydd.

Cwestiwn Atodol – *Mr Lee Canning*

Nid oes ots pwy sy'n ei gyhoeddi, gall newyddion ffug fod yn eithaf gofidus i rai cymunedau – os ddim bob cymuned yng Nghaerdydd. Fyddwch chi'n condemnio'r sylwadau diweddar wedi'u gwneud gan AS Caerdydd Ganolog Jenny Rathbone, a pha fesurau y byddwch chi'n eu cymryd i sicrhau, ar y cam hwn, nad yw'r Cyngor yn atebol ac na fydd yn hwbio'r ideoleg, y broses honno o ddethol cymunedau penodol; ac ydy'r Cyngor ar y cam hwn yn anghytuno gyda rhai o'i datganiadau sy'n awgrymu nad yw Llywodraeth Israel yn gyfrifol ac nad yw'n cynnal ymgyrch ddidrugaredd yn erbyn Arweinydd gwrthwynebiad Ei Mawrhydi, Jeremy Corbyn?

Ateb – *Y Cynghorydd Huw Thomas*

Nid yw hynny'n berthnasol i fusnes y Cyngor, ni wnaethpwyd y datganiadau hynny mewn unrhyw fforwm yn ymwneud â'r Cyngor.

Deallaf fod yr Aelod dros Gaerdydd Ganolog wedi ymddiheuro am ei sylwadau ac roedd yn iawn i wneud felly. Mae ymchwiliad parhaus felly nid wyf yn barod i sylwi'n fwy.

Cwestiwn Cyhoeddus 3 - *Mrs Jodie Randall*

Pam mae adeiladau Ysgol Gynradd Glan yr Afon wedi'u gadael i ddifetha i'r fath graddau y mae'r Cyngor yn cyfiawnhau hyn yn un o'r rhesymau dros gau'r ysgol?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Rheswm y Cyngor dros ymgynghori ar gau Glan Yr Afon oedd lleoedd nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn Llanrhymni, nid oherwydd cyflwr yr adeiladau.

Ym mis Ionawr 2017, 20% oedd canran y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn Llanrhymni; ym mis Mai 2018 48% oedd canran y lleoedd gwag yn Glan Yr Afon Mae hyn yn cael effaith ar yr ysgol o ran ei chyllideb a, fel mae adroddiad gwreiddiol y Cabinet yn nodi, gallu'r ysgol i wneud gwaith cynnal a chadw a buddsoddi yn ei hadeiladau.

Pan fo unrhyw newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth ysgol o ganlyniad i leoedd gwag, rhaid i'r Cyngor ystyried cyflwr ac addasrwydd adeiladau, ansawdd a safonau, ac effaith unrhyw newidiadau ar bob rhanddeiliad hefyd.

Nododd y Ddogfen Ymgynghori ar gyfer yr ad-drefnu arfaethedig fod gan Ysgol Gynradd Glan yr Afon yr un sgôr cyflwr â Phen y Bryn, Bryn Hafon, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Bro Eirwg.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 22 Hydref ac, yn anochel, mae rhieni wedi mynegi eu pryderon am unrhyw newidiadau arfaethedig i ysgol eu plentyn yn rhan o'r broses hon. Rwy'n deall y pryderon hynny'n llwyr a'r cyfan y gallaf ddweud ar hyn o bryd y ystyrir yr ymatebion, a sut i fwrw ymlaen yng ngoleuni'r ymatebion wedi'u derbyn, yn ofalus iawn gan y Cabinet yn ei gyfarfod y mis nesaf.

Cwestiwn Atodol – *Mrs Jodie Randall*

Mae'r Adran Addysg yn dweud y dylai Glan Yr Afon gau gan fod adeiladwaith adeilad yr ysgol mewn cyflwr mor wael ac nid oes gwerth ei gynnal a'i gadw a gwneud gwaith i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni safonau.

Ar ôl siarad â'n Cynghorwyr lleol rydym wedi sylweddoli, allan o'r 5 ysgol yn ein hardal, fod Ysgol Gynradd Glan yr Afon hefyd wedi'i dosbarthu fel ysgol sydd â'r un sgôr â'r pedair ysgol arall.

Fydd y Cyngor yn derbyn nad oes unrhyw fuddsoddiad wedi bod yn ein hysgol neu adeiladwaith yr ysgol?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Cyflwr C yw adeilad Ysgol Glan Yr Afon, nid yw'n un o'r adeiladau ysgol gwaethaf ond mae problem o ran Cyllideb yr Ysgol, mae ganddynt lai o arian i wneud gwaith atgyweirio a bydd hynny'n lleihau'n fwy na thebyg.

Mae'r rheswm dros y cynnig i gau ar sail nifer y lleoedd gwag yn gyffredinol, mae pob ysgol yn yr ardal yn gyflwr C ond Glan Yr Afon yw'r un sydd â nifer mwyaf o leoedd gwag, felly yr hyn mae angen i ni ei wneud nawr yw edrych ar yr ymatebion mae rhieni wedi'u gwneud, rhaid i ni feddwl a yw'r sylw gwreiddiol am nifer y lleoedd gwag – a ddangosir bod hynny'n wir neu ddim gan ymatebion i'r ymgynghoriad, ond yr her arall mae angen i ni ei wneud, hyd yn oed os ydyn ni'n derbyn bod lleoedd gwag o hyd, yw sut rydym yn dod o hyd i'r ateb cywir i ddatrys y sefyllfa.

Mae dau beth mae angen i ni eu hystyried yn ofalus iawn yng ngoleuni'r ymatebion, yr unig sicrwydd y gallaf ei roi i chi yw ein bod yn rhoi ystyriaeth fawr i'r pethau hyn a byddwn yn ei bwyso a mesur yn ofalus iawn iawn.

Cwestiwn Cyhoeddus 4 – *Mr Lee Jones*

Pam dylid anfon plant yng Nglan yr Afon, Ysgol Gyfrwng Saesneg, i Ysgol Gynradd Gatholig yn lle?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Fel y nodais mewn ymateb i'r Cwestiwn Cyhoeddus blaenorol, cynigiodd yr ymgynghoriad diweddar ynghylch lleoedd cynradd yn Llanrhymni leihau lleoedd cymunedol Saesneg trwy gau Ysgol Gynradd Glan yr Afon o ddiwedd mis Awst 2019.

Fel rhiant fy hun, rwy'n cydnabod bod unrhyw newid arfaethedig i ysgol eich plentyn neu blant yn ofidus, ond byddwn yn pwysleisio nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud o ran cau'r ysgol. Roedd y broses ymgynghori'n gyfle i'r Cyngor esbonio'r cynnig ac i geisio barn yr holl randdeiliaid a allai gael eu heffeithio ganddo.

Bydd y Cabinet yn cyfarfod ar 13 Rhagfyr i ystyried yr holl ymatebion, ac unrhyw ddewisiadau eraill wedi'u hawgrymu, pan fydd yn penderfynu a fydd yn symud ymlaen gyda'r newidiadau arfae$^{th}$edig.

Nid yw'r Cyngor yn cyfarwyddo rhieni i anfon eu plant u unrhyw ysgol benodol, ac ni fyddai'n gwneud hynny, ond i rai rhieni, gallai hyn fod ei ddewis a ffefrir.

Pe bai Ysgol Gynradd Glan yr Afon yn cau, gallai'r holl blant gael eu lleoli yn ysgolion cynradd cymunedol o fewn pellter cerdded, os mai dewis y rhieni ydy hynny.

Cwestiwn Atodol – *Mr Lee Jones*

Yr enw ar ymgynghoriad yr adran Addysg oedd lleoedd Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg yn ardal Llanrhymni. Mae ein plant sy'n mynychu Glan Yr Afon am fynychu Ysgol Gynradd Saesneg o'i chyferbynnu ag Ysgol Gyfrwng Cymraeg neu Ffydd. Hawl ein plant yw cael ei haddysgu trwy gyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd yn eu cymuned fel sydd wedi digwydd ers i'r ysgol agor pan gafodd yr ystâd ei adeiladu mwy na phum mlynedd yn ôl.

Pam mae'r Cyngor yn dweud felly mai ei ateb i gau Ysgol Gyfrwng Saesneg yw i'n plant fynychu Ysgol Gynradd Ffydd Gatholig gyda Chorff Llywodraethu'r Ysgol yn cytuno, fel arall byddai'n plant yn cael eu gwasgaru ar draws ysgolion cynradd ledled dwyrain y Ddinas.
Fydd y Cyngor yn rhoi cyfle i blant Ysgol Gynradd Glan yr Afon sydd am ddysgu trwy gyfrwng Saesneg yn Llanrhymni ac os na fydd y Cyngor yn ymrwymo i hyn, fydd y Cyngor yn ymrwymo i ailagor yr ymgynghoriad dan God Trafnidiaeth Ysgol Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ddiwrnodau ar ôl i'n hymgynghoriad ddod i ben? Mae hyn bellach yn gosod dyletswydd ar Awdurdod Lleol i esbonio pam mai cau'r ysgol yw'r cam mwyaf priodol.

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Fel y dywedais rwy'n gwerthfawrogi pryderon y rhieni. Nid oes awgrym y dylai unrhyw un anfon ei blentyn i Ysgol Gatholig os nad ydynt am wneud hynny. Mae ymgynghoriad sydd ar wahân i hyn y mae St Cadoc yn ei gynnal gan y credir y gallai fod gwell gan rieni gael yr opsiwn hwnnw. Nid yw bron i blant yn St Cadoc yn Gatholig fel y mae hi felly mae'n amlwg yn ddewis mae llawer o rieni yn yr ardal yn ei wneud, ond nid oes awgrym o gwbl y dylai unrhyw riant wneud y dewis hwnnw os na hoffen nhw.

98 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

| **Cynghorydd** | **Nifer y llofnodion** | **Pwnc** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Berman | Mwy na 40 – heb ei chwblhau | Yn galw ar y Cyngor i ymgorffori ateb trafnidiaeth yn y cynnig i adeiladu datblygiad tai ar hen safle Canolfan Dysgu i oedolion Howardian i osgoi'r angen i rieni sy’n gollwng neu gasglu eu plant o Ysgol Gynradd Howardian wneud troadau tri phwnt. |
| Y Cynghorydd Jacobsen | 500 | Mynegi pryderon trigolion am y cynllun i waredu Pont Groesi Maelfa a rhoi dwy groesfan newydd yn ei lle y maent yn credu y byddant yn effeithio’n andwyol ar drigolion anabl a'r Henoed sy'n cael mynediad at y ganolfan siopa newydd. |
| Y Cynghorydd Gordon | 73 | Yn galw ar y Cyngor i ystyried yn frys roi gatiau yn y lôn gefn sy’n cyfochri Teilo Street, Glan-yr-afon. |
| Y Cynghorydd Ahmed | 492 | Yn galw ar y Cyngor i alluogi’r defnydd o wydr preifatrwydd mewn Cerbydau Llogi Preifat a Hacni a gofrestrir yng Nghaerdydd. |
| Y Cynghorydd Bale | 536 | Yn galw ar y Cyngor i godi arwyddion 20mya i arafu cerbydau y tu allan i Ysgol Gynradd Coed Glas, Llanisien. |

99 : CYHOEDDIADAU’R ARGLWYDD FAER

Mynegodd yr Arglwydd Faer ar ran Aelodau Etholedig Cyngor Caerdydd ei gydymdeimladau i'r Parchedig Ganon Stewart Lisk y bu farw ei fam ar 23 Tachwedd 2018. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at Stewart a’i deulu ar ran y Cyngor. Cynhaliwyd yr angladd ddydd Llun 10 Rhagfyr am 12.15pm yng nghanol Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Croesawodd yr Arglwydd Faer Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth i’r cyfarfod i gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2017/18 y Pwyllgor.

Mae adroddiad yn nodi manylion ar ddyletswyddau a digwyddiadau wedi'u gwneud gan yr Arglwydd Faer wedi’i gyhoeddi. Roedd yr Arglwydd Faer yn falch o ddweud bod £51,800 wedi’i godi ar gyfer ei Helusen Apêl Bywydau Bach Noah’s Ark. Diolchodd yr Arglwydd Faer i bawb a gefnogodd y digwyddiadau neu a addawodd roi cyfraniadau dros y mis diwethaf.

Anogodd yr Arglwydd Faer i’r Aelodau a thrigolion, pe gallent, gymryd rhan yn Her Nadolig Rhoi Anrhegion Noah's Ark lle bydd pob punt a roddir yn dod yn ddwy bunt. Gellir cyfrannu ar-lein cyn 12pm ddydd Mawrth 4 Rhagfyr 2018.

100 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG 2017/18

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2017/18. Roedd y Cadeirydd yn falch o groesawu tri Aelod Cyngor Sir newydd ac o ddychweliad yr Aelod Annibynnol Hollie Edwards Davies oedd wedi cytuno i ddod yn ôl ar ôl marwolaeth sydyn a thrist Thora Lewis yn fuan ar ôl dechrau yn y swydd. Hefyd diolchodd y Cadeirydd i brif swyddogion y Cyngor am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

Roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi'r adroddiad blynyddol a nododd welliant mewn ymddygiad. Ond cydnabu'r Pwyllgor fod nad oes lle i hunanfoddhad a bod rhai Aelodau wedi mynegi pryderon ynghylch bwlio ac ymddygiad annerbyniol.

Roedd y Pwyllgor wedi parhau i fonitro Polisïau'r Cyngor sy'n ymwneud â Safonau a Moeseg megis Chwythu'r Chwiban a Rhoddion a Lletygarwch ac wedi nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau ac arsylwadau gan Aelodau a chodwyd y materion canlynol:

- Pryderon bod Aelodau'n dal i fynegi pryderon am ymddygiad gwahaniaethol a bwlio.
- Cefnogaeth y pwyllgor mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â hyn allai fod trwy addysg a chroesawyd rhannu profiadau.
- Holwyd pam gofynnwyd i Grŵp Merched Pob Plaid edrych ar ymddygiad gwahaniaethol a bwlio, gan y gall fod yn fater i unrhyw Gynghorydd.
- Diweddariad ar y trefniadau cyfredol ar gyfer datgelu Rhoddion a Lletygarwch Uwch Swyddogion oedd wedi'u rhaglennu.
- Cais bod y Pwyllgor yn edrych ar ddefnydd Cynghorwyr o'r Cyfryngau Cymdeithasol fel offer i ymgysylltu â'r cyhoedd i gyhoeddi gwybodaeth yn eu cymunedau am Wasanaethau a Gwybodaeth y Cyngor a sut y gellir rhoi dolenni at dudalennau Facebook a Twitter unigol Cynghorwyr ar wefannau neu gardiau busnes.

Ymatebodd y Cadeirydd i'r cwestiynau a dderbyniwyd a chyd-gysylltodd â swyddogion gan ystyried y ffordd orau o fynd â'r materion yn eu blaen. Gofynnodd y Cadeirydd pe bai unrhyw faterion penodol ynghylch y pynciau a godwyd y teimlodd yr Aelod fod angen eu hystyried yna gallai gysylltu ag ef yn uniongyrchol. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Arweinwyr Plaid a Chwipiau wedi cytuno i gynnwys yr Aelod/au Annibynnol mewn cyfarfodydd anffurfiol y Pwyllgor yn y dyfodol.

Diolchodd yr Arglwydd Faer i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg am ei adroddiad ac am ymateb i'r Aelodau Etholedig.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

## 101 : DATGANIAD TEIRBLWYDD O'R POLISI TRWYDDED GAMBLO.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd Norma Mackie Datganiad Polisi Trwyddedu Gamblo'r Cyngor i'r Cyngor ei gymeradwyo gan y Cyngor yn dilyn yr adolygiad teirblwydd. Dywedodd nad oes unrhyw newidiadau mawr i'r polisi, ond yn rhan o'r adolygiad mae ystyriaeth wedi'i rhoi i ymatebion i'r ymgynghoriad; gofynion deddfwriaethol gan gynnwys egwyddorion Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; canllaw ar Beiriannau Gemau a pheiriannau trwyddedig; esboniad o ran canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd; lotri gymdeithasol fach; codau ymarfer a chyfrifoldebau cymdeithasol.

Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Michael.

Nid oedd mwy o drafodaeth ar yr eitem hon.

PENDERFYNWYD –

1. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Trwydded Gamblo i'w gyhoeddi ar 31 Ionawr 2019 a'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ar y dyddiad hwnnw;

2. Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud newidiadau gweinyddol i'r polisi yn ôl yr angen.

## 102 : GOSTYNGIADAU A PHREMIYMAU'R DRETH GYNGOR EIDDO GWAG

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, gynnig y Cabinet i'r Cyngor i stopio'r gostyngiad 50% ar gyfer cartrefi gwag a heb ddodrefn a'r pwerau diamod sydd gan yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â gwneud cais am Bremiwm y Dreth Gyngor a fyddai'n destun ymgynghoriad.

Nododd yr Aelod Cabinet brif egwyddorion y cynnig a rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor ar y broses mewn perthynas ag yr eithriadau sydd ar waith i deuluoedd y mae angen iddynt ddelio gydag eiddo sy'n cael eu gadael iddynt ar ôl marwolaeth. Nod y cynnig oedd atal eiddo rhag bod yn wag am amser hir mewn cymunedau sy'n difetha cymunedau a dod yn dargedau sbwriela, tipio anghyfreithlon a fandaliaeth.

Eiliodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau y cynnig gan dynnu sylw at:

- Yr angen i adfer eiddo i'w defnyddio eto i gynnig cartrefi fforddiadwy a diogel.
- lleihau galw cyfredol mwy na 8000 o bobl sydd ar y rhestr aros tai.
- adeiladu tai mewn ardaloedd â galw uchel megis Adamsdown, Treganna a Grangetown.
- cyfleoedd llety dros dro i bobl ddigartref.
- Roedd y Cyngor ei hun yn dod yn agos at ei darged o ran adfer ei eiddo i'w defnyddio eto.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth a bu cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig ac anogaeth gadarnhaol i bobl roi'r gorau i eiddo nad ydynt yn cael eu defnyddio neu sy'n adfeiliedig.

Codwyd pryderon am eiddo gwag y Cyngor a'r heriau yn yr ardal. Nid oedd yn glir faint o eiddo ac incwm fyddai'n cael eu creu ond dywedodd yr Aelod Cabinet fod lefel o ansicrwydd a bod y wybodaeth yn yr adroddiad yn gall.

Croesawyd y broses ymgynghori ar y dreth bremiwm, ond codwyd pryderon am bwysigrwydd rheoli eiddo yn y ddinas ac effaith treth o'r fath ar rai eiddo sy'n wag am fwy na 12 mis yn y ddinas.

Mewn ymateb i'r mater y cododd yr Aelod Cabinet am y Dreth Gyngor nododd cyfraniadau fod y Dreth Gyngor dim ond yn rhan o'r arian a roddir i wasanaethau a defnyddir gan ddinasyddion ledled Caerdydd.

Croesawodd yr Aelod Cabinet gefnogaeth drawsblaid ac amlinellodd bwysigrwydd adeiladu tai fforddiadwy a diogel.

PENDERFYNWYD - bod Cyngor yn cytuno i stopio gostyngiad 50% cyfredol yn y Dreth Gyngor a roddir ar hyn o bryd i gartrefi gwag a heb ddodrefn o 31 Mawrth 2019. Golyga hyn na fydd gostyngiad ar gyfer y cartrefi hyn o 1 Ebrill 2019.

## 103 : ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CANOL Y FLWYDDYN 2018-19

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver, yr adroddiad canol blwyddyn ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys er 1 Ebrill 2018 a'r sefyllfa fel ag yr oedd ar 30 Medi 2018.

Gwneir gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor yn unol â'r polisïau wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor a dan godau ymddygiad proffesiynol wedi'u sefydlu gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn rhan o Arferion Rheoli'r Trysorlys. Mae'r adroddiad canol blwyddyn yn rhan o grŵp o adroddiadau mae Aelodau Etholedig yn eu derbyn ar weithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar 30 Medi 2018 ac yn trafod:-

- Cefndir economaidd gweithgareddau'r trysorlys
- buddsoddiadau
- benthyca
- ail-amserlennu dyled
- cydymffurfio â chyfyngiadau'r trysorlys a dangosyddion ariannol
- Diweddariad Cod Rheoli'r Trysorlys, cyfrifyddu a strategaeth y trysorlys ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Y Cynghorydd Bowen – eiliwyd Thomson yr adroddiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth a chodwyd y materion canlynol:-

- Lefelau benthyca a dyledion canlynol a chynyddu lefelau aeddfedrwydd
- Cost benthyca a chynnydd tebygol yng nghyfraddau llog y Bwrdd Benthyca Cyhoeddus

- Effaith y gost £32.2m ar log ar y gyllideb refeniw
- Pwysigrwydd meincnodi gyda 21 Awdurdod Lleol eraill i weld

Cydnabu'r Aelod Cabinet y materion a godwyd y byddent yn cael eu hystyried a'u trafod ymhellach yn rhan o'r drafodaeth ar gyllideb 2019/20 a strategaeth y gyllideb i'r dyfodol. Roedd yn fater o gydbwyso buddsoddiad a'r effaith ar y gyllideb refeniw a gwasanaethau. Dywedodd fod arian wrth gefn wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf a byddai angen cydbwyso cynnydd pellach yn erbyn y gwaith o ddarparu gwasanaethau a gofynion y gweithlu, a buddsoddi mewn gwasanaethau.

PENDERFYNWYD – nodi Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2018-19.

104 : DATGANIADAU GAN YR ARWEINYDD AC AELODAU CABINET

Derbyniwyd y datganiadau canlynol hyn: -

1. Datganiad yr Arweinydd
   Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau ar y canlynol:
   - Ariannu teg i Awdurdodau Lleol a sylwadau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â sefyllfa unigryw Caerdydd
   - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
   - Cais Channel 4 a Sector Creadigol Caerdydd ac a yw'r seilwaith trafnidiaeth i Gaerdydd, yn benodol Twneli Brynglas, yn effeithio ar y penderfyniad i roi'r cais i Fryste.

2. Datganiad yr Aelodau Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:
   - Proses Ymgynghori ar Gyllideb 2019/20 a'r angen a godwyd gan Bwyllgorau Craffu yn flaenorol am yr angen i ymgysylltu'n well gyda dinasyddion yn ne a dwyrain y ddinas a grwpiau anodd eu cyrraedd.
   - Strategaeth ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc yn rhan o nod y ddinas fel Dinas sy'n Dda i Blant, gan gynnwys os yn bosibl plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.
   - Gyda'r cynnydd arfaethedig mewn ariannu dros y 3 blynedd nesaf, a gynigiwyd o hyd i gynyddu'r Dreth Gyngor gan fwy na 4%.
   - Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (WITS)
   - Gwefan Addewid Caerdydd a chynnwys busnesau bach
   - Croesawu cynnydd o ran adrodd digidol ac a oes cynnydd wedi bod mewn adrodd materion megis tipio anghyfreithlon.
   - Rheoli Asbestos – gwaredu a ail-leoli
3. Datganiad yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau
   Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:
   - Gwaith y tîm Aml-asiantaeth i'r Digartref a Chysgwyr ar y Stryd a'r mesurau sydd ar waith i ddelio gyda chynnydd mwy dros y flwyddyn nesaf yn benodol yn ystod y gaeaf.
   - Ymholiad ar yr honiad bod staff y Cyngor yn symud pebyll
   - Gwaith sy'n cael ei wneud ar Gladin Adeiladau Uchel y Sector

Preifat

- Llwyddiant y Digwyddiad Cyn-filwyr yn yr Hyb Canolog
- Ymholiad ar gyflwyno Hybiau Lles mewn wardiau eraill megis Rhiwbeina

4. Datganiad yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Treial Ailgylchu Gwydr ac a yw wedi bod yn llwyddiannus ac a fydd yn cael ei gyflwyno mewn wardiau eraill
- Nam dylunio gyda'r cadis Gwydr
- Gweithdy'r Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog a chreu incwm
- Mae ymdrechion i hyrwyddo Cartref Cŵn Caerdydd sydd wedi ennill Gwobr Aur yn y categori Cŵn Strae a Gwobr Arian am Drwyddedau Gweithgareddau Anifeiliaid yng Ngwobrau Ôlion Traed Lles Anifeiliaid Cymunedol Cymru yr RSPCA.

5. Datganiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

| | |
|---|---|
| • | Cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru ac a fyddai hyn yn cael ei ymestyn i rannau eraill o'r ddinas. |
| • | Adborth o'r sesiynau ymgysylltu â staff |
| • | Darparu Hyfforddiant Rhianta Corfforaethol ar gyfer Aelodau Etholedig |

6. Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Cymru Iachach a chamau gweithredu yn cael eu cymryd o ran Strategaeth Ordewrdra
- Ariannu Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro am dryloywder o ran sut mae'r gronfa'n cael ei defnyddio, effaith mae'r project yn ei chael o ran mynd i'r afael â'r agenda iechyd meddwl a llesiant gan gynnwys unigrwydd, bodloni anghenion demensia a sicrhau bod anghenion hamdden a thai hefyd yn cael eu bodloni.
- Yr amserlen i Gaerdydd gyflawni statws Dinas sy'n Deall Demensia.
- Croesawyd y treial 'Ewch â Fi Adre' a gwaith tuag at sicrhau bod cleifion yn cyrraedd eu cartrefi i amgylchedd diogel a chefnogol.

7. Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Ansawdd Aer a cherbydau nwyddau trwm o gwmpas ysgolion ac ardaloedd chwarae.
- Ymdrechion i newid y rhaniad moddol yn benodol yn rhan o'r datblygiad newydd ledled Caerdydd ond yn benodol yng ngogledd-orllewin (Plasdŵr) a gogledd-ddwyrain y ddinas.
- Y cynllun Nextbike a thrafnidiaeth i gasglu beiciau wedi'u gadael.
- Dichonoldeb ariannol y cynllun Nextbike.

8. [Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu]

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Adnewyddu adeilad Gorsaf Bae Caerdydd
- Cynnydd o ran datblygu Gorsaf Fysus Caerdydd – roedd hyn yn fater i'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth a chynllunio
- Argaeledd lle swyddfa a thensiwn o ran datblygu'r safleoedd ar gyfer llety myfyrwyr. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y galw am lety swyddfa ansawdd uchel a bod angen uwchraddio llety â sgôr llai fel y mae gennym ystod o ddewisiadau i fusnesau sydd am ail-leoli i Gaerdydd.  Nid oedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o unrhyw densiwn rhwng y gofynion am yr ystod wahanol o angen llety yng Nghaerdydd.

9. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden]

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Croesawu rhan y Cyngor yn yr wythnos Coed Cenedlaethol.
- Cyngor plannu coed i drigolion ar y wefan.
- Swyddfa Ystadegau Gwladol - 30% o wyrddlesni ar gael yn y strydlun
- Diolch i staff am ddarparu a chefnogi'r gwaith o gael Coeden Nadolig i Ward y Tyllgoed.

10. [Datganiad y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau]

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Croesawu camau'r Cyngor wrth ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNCR trwy lansio Strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd a'i 17 nod, a phwysigrwydd y gwaith yn cael ei wneud yn y Cyngor gydag UNICEF.  Roedd yn bwysig fodd bynnag beidio ag eithrio plant a phobl ifanc gan gynnwys plant anabl y mae angen trafnidiaeth a gynorthwyir i'w galluogi i fodloni eu hanghenion dysgu a'u dyheadau.
- Llongyfarchiadau i Ysgol Gyfun Radur am ei pherfformiad yn yr arholiad cyhoeddus a'i chyflawniadau sydd wedi arwain ati'n cael yr enw 'yr ysgol Gyfun orau yng Nghymru'.

105 : CYNNIG 1

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig, wedi'i gynnig gan y Cynghorydd Dilwar Ali a'i eilio gan y Cynghorydd Mackie, wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod.  Cafwyd un diwygiad.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer gyfle i'r Cynghorydd Dilwar Ali gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

Gwybyddir bod Caerdydd yn ddinas sy'n hoff iawn o gŵn ac mae llawer o'n trigolion yn talu llawer o arian am y ci bach o'u dewis, weithiau miloedd o bunnoedd. Mae'r hoffter hwn am gŵn yn cael ei gam-drin gan berchenogion fferm cŵn bach anghyfreithlon sy'n parhau i fridio cŵn mewn cyflyrau gwael iawn ac sy'n parhau i'w

bridio. Maent hefyd yn creu cŵn bach sy'n sâl, sy'n cael eu cymryd o'u mamau'n rhy gynnar, sydd yn aml yn eu hachosi i gael problemau cymdeithasu. Maent yn costio llawer o arian i'w perchenogion newydd o ran biliau milfeddygon ac yn aml yn y pen draw mae'r ci bach yn marw neu'n anodd ei reoli. Roedd Lucy yn un o'r cŵn bridio hyn a achubwyd o fferm cŵn bach ac mae Lucy's Law yn ymgyrch i wahardd trydydd partïon rhag gwerth cŵn bach i helpu i stopio hyn.

Mae Cartref Cŵn Caerdydd, gwasanaeth a redir gan Gyngor Caerdydd, yn gorfod rhoi cartref i'r cŵn bach hyn a thrio dod o hyd i gartref newydd parhaol iddynt. Rydym yn gwybod bod nifer cynyddol o ffermydd cŵn bach anghyfreithlon mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru yn defnyddio trydydd partïon i werthu'r cŵn bach a bod cŵn bach yn cael eu gwerthu yng Nghaerdydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach yn Lloegr ac mae tri Aelod Seneddol yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud hyn hefyd oherwydd heb Lucy's Law, bydd cŵn bridio ffermydd cŵn bach anghyfreithlon a'u cŵn bach yn parhau i ddioddef y tu ôl i ddrysau wedi'u cau dan ddwylo pobl sy'n rhoi elw cyn llesiant anifeiliaid.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Arweinydd Cyngor Caerdydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn cefnogi'r galw am gamau gweithredu brys i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Mackie.

Diwygiad 1

Rhoddodd yr Arglwydd Faer gyfle i'r Cynghorydd Tim Davies gynnig y diwygiad a dderbyniwyd yn unol â CPR (R) fel a ganlyn:

Paragraff 3 – Ar ôl "...ddioddef dan ddwylo pobl sy'n rhoi elw cyn llesiant anifeiliaid" ychwanegwch frawddeg newydd.

*Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i gydnabod ei bod yn bwysig mynd i'r afael â'r broblem ehangach sy'n ymwneud â chreulondeb i bob anifail.*

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Hudson.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth cadarnhaodd y Cynghorydd Dilwar Ali na dderbyniodd y diwygiad. Gwahoddodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorydd Dilwar Ali ymateb i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth cyn cymryd y pleidleisiau.

**COLLWYD** y Bleidlais ar y Diwygiad fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Tim Davies.

**PASIWYD** y Bleidlais ar y Cynnig Gwreiddiol fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Dilwar Ali yn unfrydol fel a ganlyn:

Gwybyddir bod Caerdydd yn ddinas sy’n hoff iawn o gŵn ac mae llawer o’n trigolion yn talu llawer o arian am y ci bach o'u dewis, weithiau miloedd o bunnoedd. Mae’r hoffter hwn am gŵn yn cael ei gamdrin gan berchenogion fferm cŵn bach anghyfreithlon sy'n parhau i fridio cŵn mewn cyflyrau gwael iawn ac sy’n parhau i’w bridio. Maent hefyd yn creu cŵn bach sy’n sâl, sy’n cael eu cymryd o’u mamau’n rhy gynnar, sydd yn aml yn eu hachosi i gael problemau cymdeithasu. Maent yn costio llawer o arian i'w perchenogion newydd o ran biliau milfeddygon ac yn aml yn y pen draw mae'r ci bach yn marw neu’n anodd ei reoli. Roedd Lucy yn un o‘r cŵn bridio hyn a achubwyd o fferm cŵn bach ac mae Lucy's Law yn ymgyrch i wahardd trydydd partïon rhag gwerth cŵn bach i helpu i stopio hyn.

Mae Cartref Cŵn Caerdydd, gwasanaeth a redir gan Gyngor Caerdydd, yn gorfod rhoi cartref i’r cŵn bach hyn a thrio dod o hyd i gartref newydd parhaol iddynt. Rydym yn gwybod bod nifer cynyddol o ffermydd cŵn bach anghyfreithlon mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru yn defnyddio trydydd partïon i werthu'r cŵn bach a bod cŵn bach yn cael eu gwerthu yng Nghaerdydd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach yn Lloegr ac mae tri Aelod Seneddol yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud hyn hefyd oherwydd heb Lucy’s Law, bydd cŵn bridio ffermydd cŵn bach anghyfreithlon a’u cŵn bach yn parhau i ddioddef y tu ôl i ddrysau wedi’u cau dan ddwylo pobl sy’n rhoi elw cyn llesiant anifeiliaid.

Mae’r Cyngor hwn yn galw ar Arweinydd Cyngor Caerdydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn cefnogi’r galw am gamau gweithredu brys i wahardd trydydd partïon rhag gwerthu cŵn bach.

106 : CYNNIG 2

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig, wedi’i gynnig gan y Cynghorydd Dilwar Ali a’i eilio gan y Cynghorydd Mackie, wedi'i dderbyn i’w ystyried a’i gynnwys yn y Gwysion ar gyfer y cyfarfod. Cafwyd un diwygiad.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer gyfle i’r Cynghorydd Hudson gyflwyno’r cynnig fel a ganlyn:

Mae’r Cyngor hwn wedi ymrwymo i gefnogi dinasyddion a theuluoedd sy’n byw gyda demensia ac i wneud Caerdydd yn ddinas sy’n deall demensia gydnabyddedig, lle y gall pobl y mae demensia’n effeithio arnynt ffynnu a mwynhau bywyd yn ddiogel gan wybod bod y gymuned ehangach yn deall ac yn cefnogi eu hanghenion.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi’r canlynol:

- Mae bod yn gyfarwydd â lleoliad a gofal yn hanfodol i lawer o bobl sy’n dioddef o ddemensia a bod canolfan dydd leol yn helpu i atal dinasyddion rhag cael eu drysu’n ddaearyddol.

- Bod canolfan dydd gyda gwasanaethau demensia’n codi ymwybyddiaeth o’r mater yn y gymuned leol.

- Bod canolfannau dydd a ariennir gan y Cyngor ar hyn o bryd wedi'u lleoli'n logistaidd yn nwyrain a gorllewin y ddinas. Nid oes unrhyw lwybrau bws uniongyrchol o wardiau mwyaf gogleddol Caerdydd i ganolfannau dydd cyfredol a gall trafnidiaeth gymunedol VEST gymryd hyd at awr mewn traffig trwm. Nid oes gan y canolfannau dydd cyfredol, er eu bod yn wych, y capasiti i fodloni'n ddigonol anghenion trigolion hŷn ledled Caerdydd.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i greu canolfan dydd ar wahân a ariennir gan y Cyngor sy'n cynnig gwasanaethau demensia yng ngogledd dinas Caerdydd, lle mai dinasyddion yw'r canolbwynt mwyaf, erbyn diwedd cyfnod y Cyngor hwn yn y swydd yn 2022 a llunio amserlen ar gyfer achredu Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Demensia.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Owen.

Diwygiad 1

Rhoddodd yr Arglwydd Faer gyfle i'r Cynghorydd Carter gynnig y diwygiad a dderbyniwyd yn unol â CPR (R) fel a ganlyn:

Dileu'r paragraff terfynol a rhoi'r canlynol yn ei le:

*Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:*

- *Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Gymdeithas Alzheimer i fapio anghenion pobl sy'n byw gyda demensia ledled Caerdydd a chael gwybod lle bod angen am wasanaethau ychwanegol, yn benodol yng ngogledd Caerdydd.*
- *Diogelu ac ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy ganolfan a redir gan y Cyngor a gwasanaeth y Gymdeithas Alzheimer yng Nghwrt Oldwell.*
- *Llunio amserlen ar gyfer achredu Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Demensia.*

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Howells.

Gofynnodd yr Arglwydd Faer am drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Ar ddiwedd y drafodaeth cadarnhaodd y Cynghorydd Hudson na dderbyniodd y diwygiad. Gwahoddodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorydd Hudson ymateb i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth cyn cymryd y pleidleisiau.

**PASIWYD** y Bleidlais ar y Diwygiad fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Carter.

Rhoddodd yr Arglwydd Faer i'r Cynghorydd Carter yr hawl i ymateb ar y Cynnig Terfynol. Diolchodd y Cynghorydd Carter i'w chyd-gynghorwyr am eu cyfraniadau yn benodol y rheiny gan y Cynghorwyr Stubbs, Cowan, Molik a Howells; a diolchodd i'r Aelodau Cabinet, y Cynghorwyr Thorne ac Elsmore am eu cyfraniadau cadarnhaol i'r drafodaeth.

Pleidlais ar y Cynnig Terfynol fel y cynigiwyd gan y Cynghorydd Carter. **PASIWYD** y Cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn wedi ymrwymo i gefnogi dinasyddion a theuluoedd sy'n byw gyda demensia ac i wneud Caerdydd yn ddinas sy'n deall demensia gydnabyddedig, lle y gall pobl y mae demensia'n effeithio arnynt ffynnu a mwynhau bywyd yn ddiogel gan wybod bod y gymuned ehangach yn deall ac yn cefnogi eu hanghenion.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r canlynol:

- Mae bod yn gyfarwydd â lleoliad a gofal yn hanfodol i lawer o bobl sy'n dioddef o ddemensia a bod canolfan dydd leol yn helpu i atal dinasyddion rhag cael eu drysu'n ddaearyddol.

- Bod canolfan dydd gyda gwasanaethau demensia'n codi ymwybyddiaeth o'r mater yn y gymuned leol.

- Bod canolfannau dydd a ariennir gan y Cyngor ar hyn o bryd wedi'u lleoli'n logistaidd yn nwyrain a gorllewin y ddinas. Nid oes unrhyw lwybrau bws uniongyrchol o wardiau mwyaf gogleddol Caerdydd i ganolfannau dydd cyfredol a gall trafnidiaeth gymunedol VEST gymryd hyd at awr mewn traffig trwm. Nid oes gan y canolfannau dydd cyfredol, er eu bod yn wych, y capasiti i fodloni'n ddigonol anghenion trigolion hŷn ledled Caerdydd.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet i wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r Gymdeithas Alzheimer i fapio anghenion pobl sy'n byw gyda demensia ledled Caerdydd a chael gwybod lle bod angen am wasanaethau ychwanegol, yn benodol yng ngogledd Caerdydd.

- Diogelu ac ymestyn y gwasanaethau sydd ar gael yn y ddwy ganolfan a redir gan y Cyngor a gwasanaeth y Gymdeithas Alzheimer yng Nghwrt Oldwell.

- Llunio amserlen ar gyfer achredu Caerdydd yn Ddinas sy'n Deall Demensia.

107 : CWESTIYNAU LLAFAR

Mater o Drefn – *gan y Cynghorydd McKerlich* mewn perthynas â Chwestiwn Ysgrifenedig a gyflwynwyd y teimlodd iddo gael ei wrthod gan y cyfeiriodd yr ateb yr Aelod at Gwestiwn Llafar canlynol oedd wedi'i gyflwyno.

Eglurodd y Swyddog Monitro'r rheolau mewn perthynas â gwrthod cwestiynau a dyblygu cwestiynau a dywedodd fod ymateb wedi'i roi i'r cwestiynau Llafar ac Ysgrifenedig yn unol â'r rheolau cyfredol.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd McKerlich*

Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer ysgol gyntaf y 4 ysgol gynradd ar ddatblygiad Plasdwr ond, hyd yn hyn, nid oes caniatâd cynllunio manwl. Allwch chi amlinellu'r camau angenrheidiol i sicrhau y bydd yr ysgol hon yn derbyn disgyblion ym mis Medi 2020 a chadarnhau y caiff y camau hyn eu cymryd mewn pryd i gyflawni hyn?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Byddaf yn ymateb yn ysgrifenedig dros e-bost ac rwy'n hapus iawn hefyd gyfarfod â chi i drafod y mater gyda Swyddogion. Fel y dywedwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Medi, mae'r Cyngor yn disgwyl cyflwyno cynigion ar gyfer darpariaeth ysgol newydd yng ngogledd-orllewin Caerdydd ac ymgynghori'n eang ar y cynigion hyn gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys aelodau lleol, ar ddechrau 2019.

Nid yw ymrwymiad wedi'i wneud i sefydlu'r ysgol i wasanaethu disgyblion Plasdŵr erbyn mis Medi 2020.

Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r prosesau statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion wrth sefydlu darpariaeth ysgol newydd.

Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar ddarpariaeth ysgol newydd ar gyfer Plasdŵr cyn ymgynghori a rhaid wedi ystyried canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw er mwyn datgan yn ffurfiol ei fwriad i sefydlu ysgol. Byddai angen gwneud penderfyniad ar y cynnig yng nghyfarfod y Cabinet yn y dyfodol.

Byddwn yn disgwyl i'r datblygwyr gyflwyno cais cynllunio adeiladu'r ysgol yn 2019, a rhaglen adeiladu o 12-14 mis, sy'n golygu y byddai'r ysgol yn barod yn haf 2021. Mae amseru'r ddarpariaeth ysgol yn hynod bwysig, caiff camau gwaith adeiladu'r ddarpariaeth ysgol newydd eu cynllunio'n ofalus i osgoi ansefydlogi ysgolion cyfredol sy'n agosaf at y safleoedd. Gan fod 30 – 60 lle mynediad ychwanegol i'r ysgol yn risg sylweddol i'r ysgolion cyfredol, o 21 Tachwedd 2018 ymlaen, roedd 58 tai â phobl ynddynt a 27 disgybl ym mhob grŵp oedran ysgol yn ystod camau cyntaf y datblygiad. Mae 6 disgybl preswyl y disgwylir iddynt fynd i mewn i'r flwyddyn dderbyn ym mis Medi 2019. Ymgynghorir ag Aelodau Lleol ar y cynigion a'r dyddiad sefydlu wedi'i gynllunio yn 2019, byddaf yn anfon gweddill fy ymateb dros e-bost.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Ebrahim*

Ym maes addysgu a dysgu, mae'r pwyslais y dyddiad yma ar ganlyniad yn lle'r broses, felly pryd byddwch yn llwyddo i sicrhau bod Swyddogion yn deall, pan ddaw hi'n fater o adeiladu ysgol newydd, bod y canlyniad yr un mor bwysig â'r broses. Yn yr achos penodol hwn, nid ydynt hyd yn oed wedi dechrau ymgynghori 2 flynedd ar ôl iddo gael ei gytuno mewn egwyddor. Mae'r prif ddatblygwr ar y safle wedi bod yn disgwyl i rywun ddweud wrtho am gryn amser pryd y gallai symud tuag at wneud cais am ganiatâd cynllunio manwl.
Nodaf fod eich barn sydd ar sail cyngor y swyddog yw y bydd dim ond 6 plentyn wedi'u cynnwys a gobeithio y cyffwrddir â chanolau fy nghyd-gynghorwyr yn Llandaf, Creigiau, y Tyllgoed a Phentyrch, a'r holl wardiau gan hyn. Am y 5 mlynedd diwethaf rwyf wedi bod yn rhan o ddadleuon diddiwedd am blant yn ceisio cael lle mewn ysgol

oherwydd diffyg lleoedd ysgol. Ces i fy syfrdanu os nad yw fy ward a'r 4 ward arall yn cynnwys mwy na 6 phlentyn mewn blwyddyn.

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Rwy'n meddwl yr oedd Swyddogion yn glir iawn o ran canlyniad ychwanegu 30-60 lle ysgol ychwanegol ar adeg pan ddisgwylir dim ond 6 plentyn ychwanegol ar y gofrestr yn y flwyddyn academaidd nesaf ac maent wedi dweud wrthyf y gallai Ysgol Gynradd Radur, Bryn Derw, Danescourt, Peter Lea, Ysgol Coed y Gof a Gwaelod-y-Garth dderbyn holl ddisgyblion y dalgylch a disgyblion o'r tu allan i'w dalgylchoedd y tro diwethaf.

Ni fydd canlyniad ychwanegu lleoedd ysgol yn rhy gynnar yn rhoi cyfle gwell i rieni o ran addysg. Bydd yn ansefydlogi ysgolion cyfredol a'u gadael o bosibl gyda phroblemau ariannol a all bara am flynyddoedd os aethon nhw wedyn i ddiffyg ariannol.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Berman*

Gan fod angen mynd trwy ffyrdd pengaead ar ddwy ochr safle Ysgol Gynradd Howardian i'w chyrraedd, mae'n rhaid i rieni sy'n gollwng eu plant ar ddechrau'r diwrnod ysgol, neu eu casglu ar ddiwedd y diwrnod ysgol, wneud troadau tri phwynt ac mae hyn yn arwain at draffig problemus yn y strydoedd amgylchynol gyda phobl yn gwneud symudiadau sy'n beryglus o bosibl. Gan fod y Cyngor a'i bartneriaid datblygu, Wates Residential, bellach yn symud cynlluniau yn eu blaen ar gyfer datblygiad tai ar y safle sy'n gyfagos â hen ganolfan Howardian, fydd y Cyngor edrych eto at y syniad o ymgorffori yn y datblygiad newydd hwn ateb trafnidiaeth a allai atal rhieni rhag angen gwneud troadau tri phwynt wrth ollwng neu gasglu eu plant?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Rydym yn ymwybodol o faterion o gwmpas yr ysgol honno ac yn gweithredu pob math o fesurau lleol a llawer o atebion trafnidiaeth ond rydym yn awyddus i glywed pa fath o atebion trafnidiaeth yr hoffech fynd â nhw yn eu blaen a gallaf ymateb i hynny.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Berman*

Rwy'n meddwl ei bod yn hawdd datrys hyn, y broblem yw bod rhaid i rieni sy'n dod i mewn i ollwng eu plant fynd i mewn i ffordd bengaead wrth ochr yr ysgol ac felly rhywsut mae'n rhaid iddynt droi i ddod allan o'r ffordd bengaead honno eto sydd yn anochel yn golygu eu bod yn gwneud troadau tri phwynt a all fod yn beryglus. Gallai fod plant yn trio cerdded i'r ysgol yn mynd trwy'r anhrefn hon felly mae'n sefyllfa ofnadwy.

Rydym wedi bod yn awgrymu ers cryn amser, rydym wedi siarad â Swyddogion y Cyngor, cyflwynodd fy nghyn-gydweithwyr yn y ward deisebau. Yn rhan o'r datblygiad mae cyfle cael llwybr trwodd o un ochr i'r ochr arall heibio'r ysgol, nid yn rhan o dir yr ysgol ond fyddech chi'n ystyried naill ai cael llwybr trwodd neu adael

rhywfaint o'r ardal i geir ddod i mewn a throi o gwmpas gan ddod allan eto mewn modd sy'n symud ymlaen lle nad yw'n achosi perygl.

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Byddaf yn gofyn iddynt edrych arno ond mae cwpl o bethau sy'n sefyll allan yno, tystiolaeth rydym yn ei gwybod am drafnidiaeth yw bod gosod ffyrdd trwodd yn agos at ysgolion yn creu mwy o draffig a chyflymder sef yr hyn mae bron bob ward arall yn dweud wrthyf, nid ydynt am gael hyn wrth eu hysgolion

Yr hyn sy'n digwydd yn y ward hwn, fel y deallaf, yw bod yr ysgol wedi bod yn cyflwyno cynllun teithio llesol i'r ysgol sy'n cynnwys parthau 20 mya, mwy o bobl yn beicio i'r ysgol, mae'n dechrau bws ysgol, dyna'r mathau o bethau y byddwn yn disgwyl i chi eu cefnogi, yn hytrach na gweithio allan sut gallwn gael pobl i'r ysgol honno mewn ceir, gollwng y plant mor gyflym ag y gallant yn lle'r effeithiau tymor hirach. Dyma'r hyn rydym yn gweithio arno gyda'r ysgol honno, os nad ydych yn credu bod hynny'n iawn neu rydych yn credu y dylen ni fynd â rhywbeth arall yn ei flaen yna byddaf yn trafod hynny gyda Swyddogion.

Cwestiwn - *Y Cynghorydd Ford*

Allwch chi roi diweddariad ar y gwaith sydd ar y gweill yn Waungron Road?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Mae contractwyr ar y safle ar hyn o bryd yn gwneud gwaith clirio a chywiro. Mae cam hwn y datblygiad wedi'i gwblhau'n sylweddol.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Ford*

Allech chi ddweud pam mae Ward Plaid Llafur wedi cael y diweddaraf ynghylch Waungron Road ond nid ni, y Cynghorwyr Ward Lleol?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Os bydd unrhyw un yn gofyn cwestiynau i mi am Waungron Road, rwy'n hapus eu hateb. Nid ydych wedi gofyn cwestiwn i mi yn y gorffennol am Waungron Road. Byddwn i wedi rhoi diweddariad i chi ar unrhyw adeg pe baech wedi gofyn i mi. Rydym am ei symud y gwaith yn ei flaen trwy'r amser. Gofynnwch gwestiwn i mi, byddaf yn ei ateb.

Cwestiwn - *Y Cynghorydd Gordon*

Mae'r llwybr Stryd y Castell o'r gornel â Stryd Working i Bont Treganna yn beryglus i feicwyr. Ond mae'n brif gysylltiad â Chanol y Ddinas ac mae'n llwybr i'r dwyrain/gorllewin. Mae arwyneb ffordd Stryd y Castell yn anwastad ac mae cyrbau uchel wrth y safle bws y tu allan i'r Holiday Inn. Mae'r profiad beicio heriol yn benodol anodd o fynedfa'r Holiday Inn i Bont Treganna. Oes gan y Cyngor unrhyw gynigion i wneud Stryd y Castell yn ddiogelach i feicwyr?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Gan fy mod wedi bod yn hyrwyddwr beicio ers amser hir cyn i'r holl bobl hyn sy'n dechrau beicio nawr gan fod gennym grys melyn, rwy'n gwybod eich bod wedi bod yn ymgyrchu ers llawer o flynyddoedd i weld beiciau a seilwaith gwell. Mae'r darn hwnnw o ffordd yn broblematig, er dylid nodi bod llawer o welliannau eraill yn yr ardal. Mae gwelliannau o gwmpas Stryd y Castell yn rhan o'n map rhwydwaith integredig ac rydym yn trio ein gorau glas i gael arian mor gyflym ag y gallwn i wella seilwaith teithio llesol yn yr ardal honno.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Gordon*

Beth yw'r amserlen arfaethedig ar gyfer gwelliannau Stryd y Castell?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Nid ydym yn sicr am yr union ddyddiad ar hyn o bryd, mae'n dibynnu ar yr arian rydym yn ei dderbyn. Rydym yn trio cyflymu'r gwaith hwn, yr hyn oedd yn weledigaeth feicio 15 mlynedd, fel y caiff ei wneud yn y 3 i 5 mlynedd nesaf. Nid ydym wedi cael yr arian hwnnw ond rydym yn gobeithio y bydd gennym, ym mis Ionawr, ddealltwriaeth gliriach o bryd y gellir gwneud y gwelliannau hyn.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Hudson*

Ynglŷn â chynnydd y cynllun parcio hybrid y addawyd y byddai'n cael ei ddechrau ym mis Medi eleni, allwn ni weld dechrau amlinelliad neu gwestiynau ymgynghori cyn hir?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Rydym wedi cyfarfod â nifer o gydweithwyr o wardiau gwahanol, nid ymhell o'ch ward chi ond o gwmpas yr ardal honno hefyd ac wedi cael sgyrsiau da gyda nhw. Mae cwpl o bethau mae angen i ni eu hystyried yn benodol yr effaith ar wardiau eraill ac rydym bellach yn mynd i edrych ar wneud y cynllun ledled Ystum Taf a rhan o'r Eglwys Newydd hefyd felly rydym am sicrhau ein bod yn gwneud hynny'n iawn ac yn ymgynghori â'r Aelodau hynny, wedi dweud hynny, bydd angen rhywfaint o gyfaddawdu, mae'r strydoedd yn fach iawn, llawer o bobl yn trio eu defnyddio, yn benodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cymru ond mae swyddogion yn llunio cynllun y byddwch yn hapus ag ef, gobeithio.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Hudson*

Fyddai'n bosibl trafod hyn fel y gallwn symud ymlaen cyn gynted â phosibl?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Byddwn yn cael y drafodaeth hon o fewn y mis nesaf.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Molik*

Faint o gartrefi nyrsio rydym yn eu colli yng Nghaerdydd o ganlyniad i wasanaeth annigonol neu ddiffyg staff?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Ar hyn o bryd caiff 30 gwely nyrsio cofrestredig eu colli i Gaerdydd yn dilyn penderfyniad darparwr cartref gofal i dynnu ei gofrestriad nyrsio yn ôl. Roedd y penderfyniad yn ymwneud ag ansawdd gofal, a'r anallu oherwydd hynny i recriwtio staff nyrsio profiadol a chymwys addas.

Pan fo'r Cyngor yn nodi pryderon sy'n ymwneud ag ansawdd darpariaeth nyrsio, mae'r gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro, a rhanddeiliaid eraill, ynghyd â'r darparwr i sicrhau bod y camau cywiro angenrheidiol yn cael eu cymryd mewn modd amserol i alluogi'r darparwr i barhau i weithredu'n ddiogel.

Ar gyfer y tymor canolig a thymor hirach, rydym yn cydweithio gyda phartneriaeth i ddatblygu ystod o wasanaethau i bobl hŷn a fydd yn galluogi unigolion i fyw yn eu cartrefi, felly'n atal yr angen i bobl symud i mewn i gartrefi gofal. Mae hyn yn cynnwys cymorth trwy: y Tîm Adnoddau Cymunedol, y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, addasiadau i dai a thechnoleg cynorthwyol; adolygu gwasanaethau gofal cartref; a datblygu ystod o wasanaethau tai a chymorth sydd i bobl hŷn yn benodol.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Molik*

Fel y byddech chi'n dychmygu roedd yn lloriol i deuluoedd a thrigolion gael gwybod bod ganddynt fis i ail-leoli eu hanwyliaid y mae eu bywydau ar adeg fregus, ymhen mis, felly mae wedi bod yn gam anodd.

Beth wyddoch chi a phryd gwyddoch chi am y cynnig i gau'r cartref gofal yng nghartref gofal Sunrise?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Nid wyf yn credu bod hynny'n gwestiwn priodol yr Arglwydd Faer o ran beth oeddwn yn ei wybod a phryd.

Hoffwn ofyn i chi hefyd i fod yn ofalus iawn o ran rhai o'r camau mae eich grŵp wedi eu cymryd yn hyn o beth.  Mae gennym brosesau iawn ac rwyf wedi cael fy sicrhau gan rheiny a gan y ffaith bod ein swyddogion yn gweithio yn ddiflino gyda'r bwrdd iechyd a'r rheolydd o ran dod o hyd i lety newydd i unigolion sy'n cael eu heffeithio.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Parry*

Allwch chi ddweud os a phryd bydd y gyfnewidfa fysus yn agor?

Ateb – *Y Cynghorydd Wild*

Allwch chi esbonio'r 'gyfnewidfa fysus' rydych yn cyfeirio ati oherwydd mae tua 3 rydym yn gweithio arnynt ar hyn bryd?

*Y Cynghorydd Parry*

Dyma'r gyfnewidfa Fysus oedd i gael ei hadeiladu ar safle ailgylchu Waungron Road ar Waungron Road a Western Avenue

*Y Cynghorydd Wild*

Rydym yn gweithio gyda'r datblygwyr Link Housing i symud y gwaith hwnnw yn ei flaen, mae yn eu dwylo nhw ar hyn o bryd. Rydym yn gobeithio y bydd ar y cam cynllunio ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

Gan fod y project yn cael ei wneud gan drydydd parti, ni allaf ddweud pan fydd y gyfnewidfa ar agor; ond gallaf ddweud y caiff ei wneud yn rhan o'r datblygiad.

Cwestiwn – Y Cynghorydd Bridgeman

Fydd yr Aelod Cabinet yn rhoi diweddariad ar gynnydd y Cyngor ar symud pobl i eiddo newydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Thorne*

Rwy'n falch o ddweud bod 13 cartref Cyngor newydd, wedi'u hadeiladu trwy'r Rhaglen Cartrefi Caerdydd yn Llaneirwg a Llanrhymni, wedi'u cynnig i ymgeiswyr ar y Rhestr Aros Tai.

Mae 4 teulu bellach wedi symud i mewn i'w cartrefi newydd a disgwylir i'w gweddill symud i yn y mis nesaf.

Caiff eiddo eu hadeiladu i safon Lifetime Homes, gyda'r posibilrwydd i addasu, ac rwy'n falch o ddweud ei bod wedi bod yn bosibl cynnig dau o'r cartrefi i deuluoedd sydd â phlant anabl.

Bydd y gwaith o ddyrannu unedau rhent cymdeithasol yn canolbwyntio ar hyrwyddo lle sefydlog, cydlynol a dymunol i fyw ynddo, tra'n ateb galw ymgeiswyr ar y rhestr aros ar yr un pryd.

Mae trefniadau gosod arbennig hefyd wedi'u cytuno ar gyfer pob datblygiad i gyflawni'r cydbwysedd hwn, tra'n rhoi cyfle i bobl leol symud ac aros eu cymuned ar yr un pryd. Ymgynghorwyd ag aelodau ward ar y fenter gosodiadau hefyd.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Bridgeman*

Gyda mwy na 8000 o bobl ar restr aros tai'r Cyngor, bob dydd Sadwrn mae Keith Heather a finnau'n cynnal ein cymhorthfa wythnosol. Mae pobl sy'n gofidio'n ddifrifol yn dod atom wrth iddynt geisio dod o hyd i lety yn agos at y cymunedau y maent yn

rhan ohonynt. Mae’r newyddion bod rhaglen Cartrefi Caerdydd Cyngor Caerdydd bellach yn adeiladau cartrefi i deuluoedd Caerdydd yn wych.

Yn wythnos ddiweddaf, es i ar daith o gwmpas cartref newydd y Cyngor yn Llanrhymni gyda'r Cynghorydd Jones, yr un cyntaf yn Llanrhymni ers degawdau, roedd yn brydferth, y diwrnod wedyn cafodd allweddi’r eiddo hwnnw eu rhoi i deulu Llanrhymni newydd.

Beth yw’r camau nesaf y gall y Cyngor eu cymryd i weithio gyda datblygwyr a Llywodraeth Cymru i adeiladu llawer mwy o dai cymdeithasol yn ein prifddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Thorne*

Rwyf wedi ymweld â’r tai cymdeithasol yn Llanrhymni ac yn cytuno eu bod yn wych. Ar yr ystadau rydym wedi’u datblygu yn Llanrhymni a Llaneirwg byddech yn cael trafferth dod o hyd i wahaniaeth rhwng y sector preifat a’r sector cymdeithasol, y gwahaniaeth mawr yw bod cartref y Cyngor yn well gan fod y safonau mewnol yn llawer mwy.

O ran adeiladu mwy, rydym wedi ymrwymo i adeiladau 1000 o gartrefi cymdeithasol pellach erbyn 2022. Mae hefyd gennym uchelgais i ddod o hyd i dir y gallwn o bosibl adeiladu 2175 o dai arno. Efallai y byddwch yn ymwybod hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi diddymu’r cap felly rydym yn ceisio gweld sut gallwn gynyddu’r uchelgais hwnnw i 300.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Graham Thomas*

Gyda safleoedd strategol lluosog y CDLl bellach ar y cam adeiladu ar hyd yr A4119, mae llawer o drigolion yn cwyno am gerbydau nwyddau trwm yn dod drwy'r pentrefi a defnyddio ffyrdd a lonydd lleol. Sut mae’r Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr a’u contractwyr i atal hyn ac i gadw ar y llwybrau a gytunwyd?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Mae’n bryder ac mae’n rhywbeth rwyf wedi bod yn rhoi sylw iddo. Atodwyd amodau i’r caniatâd cynllunio amlinellol yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd a ofynnwyd i Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Rydym wedi trafod gyda’r datblygwyr i'w hatgoffa o'u dyletswyddau. Mae trigolion lleol hefyd wedi bod yn rhoi pwysau ar rai o'r datblygwyr hefyd.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Graham Thomas*

Byddwch yn ymwybodol o’r arwyddion sydd wedi’u codi o gwmpas Radur sydd eisoes yn gwyro cerbydau nwyddau trwm o Heol Isaf gan fynd trwy’r pentref. Wrth gwrs mae ardaloedd eraill sy’n dioddef hyn gan gynnwys Church Road a Ffordd Caerdydd yng Nghreigiau yn benodol pan fo caniatâd cynllunio ar gyfer y safle i'r de o Greigiau wedi'i gymeradwyo'n llawn.

Ydych chi'n credu bod yr arwyddion hyn wedi bod yn effeithio a gallaf ofyn i chi godi'r arwyddion hyn ar lwybrau eraill y mae contractwyr yn teithio arnynt ar hyn bryd nad ydynt yn rhan o'r llwybrau y cytunwyd arnynt?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Rwy'n credu y dylem godi'r arwyddion ar lwybrau eraill. Rwy'n credu eu bod wedi helpu ac rydym wedi cael ein hannog gan yr heddlu i ymyrryd. Mae hyn yn helpu'r cyhoedd i ddeall yr hyn a ddisgwylir gan y gyrwyr wrth deithio ar y llwybrau hyn.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Howells*

Am faint y dylai trigolion aros i ddeunyddiau cyffuriau sydd wedi'u gadael yn gyhoeddus, megis nodwyddau, gael eu symud o'r adeg y cânt eu hadrodd i'r Cyngor?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Ar ôl adrodd, mae staff glanhau yn anelu at symud nwyddau a deunyddiau cyffuriau ymhen 48 awr yn unol â safonau gwasanaeth.
Mae timau hefyd yn rhagweithiol wrth wneud eu gwaith dyddiol ar y strydoedd a byddant yn symud nodwyddau a deunyddiau cyffuriau eraill bob dydd os deuant o hyd iddynt.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Howells*

Gofynnais y cwestiwn hwn ynghylch pa mor gyflym mae gwydr yn cael ei symud ychydig o fisoedd yn ôl ac o fewn 24 awr oedd yr ateb. Felly mae'r ffaith ei bod yn cymryd mwy o amser i symud nodwyddau yn fy mhryderu ychydig. Yng nghyfarfod PACT diwethaf Adamsdown, cododd trigolion bryderon am hyn gan gyfeirio'n benodol at Barc y Fynwent. Clywon ni gan drigolion fod yr ymateb a gawson nhw wrth adrodd pethau fel hyn i'r Cyngor yn foddhaol a chymerodd llawer o ddyddiau i'r chwistrelli hyn gael eu symud ac weithiau roedd angen i'r trigolion fynd ati i'w casglu nad yw'n beth call, fel rydych yn gwybod.

Allech chi ofyn i chi gydgysylltu â'ch cydweithwyr er mwyn llunio cynllun gweithredu i weld sut gallwn ni fynd i'r afael â'r broblem hon gyda nodwyddau'n cael eu taflu yn benodol ym Mharc y Fynwent?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Deallaf fod hyn yn broblem yn eich ward (Adamsdown) ac rwy'n fwy na hapus trefnu cyfarfod yn cynnwys y cynghorwyr perthnasol er mwyn dod o hyd i ateb i'r broblem hon.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Keith Parry*

Pa ddarpariaeth mae'r Cyngor yn bwriadu ei gwneud ar gyfer monitro llygredd aer ar hyd ffyrdd llawn tagfeydd yn y Tyllgoed a allwch chi ddweud pryd gaiff gorsafoedd

monitro ansawdd aer eu gosod yn yr ardaloedd llawn tagfeydd yn y Tyllgoed a Phentre-baen?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

O ran blaenoriaethu lleoliadau samplo ansawdd aer, mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull ar sail risg o bennu safleoedd monitro, gan ystyried gofynion canllawiau cenedlaethol priodol.

Ar hyn o bryd, nid oes gwaith monitro ansawdd aer amlwg lleol yn cael ei wneud yn y Tyllgoed neu Phentre-baen. Fodd bynnag, mae lefelau cefndir isel o brif lygryddion yn yr ardal yn rhoi rhywfaint o sicrwydd o ran y ffaith bod gwahaniaeth mawr rhwng y lefelau hyn a'r Amcan Ansawdd Aer cyfreithiol ar gyfer y llygryddion hynny.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Keith Parry*

Rwyf wedi sylwi bod ansawdd yr aer ar yr A119 trwy Landaf yn cael ei fonitro. Rwy'n pryderu y bydd llawer mwy o draffig yn y dyfodol pan gaiff datblygiad Plas Dwr ei adeiladu trwy'r Tyllgoed yn benodol ar hyd Heol Sain Ffagan rhwng y Lawnt a Waungron Road.

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Rwy'n hapus rhoi eich pryderon i swyddog y byddaf yn cyfarfod ag ef yn fuan i drafod pan gaiff y gorsafoedd monitro newydd eu gosod.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Lay*

All yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Roi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Aelod Cabinet sydd Hyrwyddwr y Rhuban Gwyn ddweud beth mae'r Cyngor wedi'u wneud ar gyfer Diwrnod y Rhuban Gwyn ac yn ei wneud yn ystod y 16 diwrnod o actifiaeth yn dilyn Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Yr ateb yw ein bod yn gwneud llawer. Amlinellodd fy natganiad rai o'r pethau ac yn bwysicaf, mae'r gwely blodau y tu allan i Gastell Caerdydd wedi'i gopio'n rhyngwladol. Mae'n wych bo dinasoedd eraill ledled y byd am gopïo rhywbeth sy'n dechrau yn Ninas Caerdydd. Eleni, mae plac gwybodaeth dwyieithog wedi'i osod wrth y gwely blodau i esbonio beth yw Ymgyrch y Rhuban Gwyn a lle y gall pobl geisio help.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Changen Morgannwg y Soroptimyddion Rhyngwladol, sy'n cymryd rhan yn ymgyrch #Orange the World y Cenhedloedd Unedig. Mae hyn yn cynnwys gosod sashiau oren ar gerfluniau o fenywod trwy'r ddinas i nodi Diwrnod Rhyngwladol y CU i Ddiddymu Trais yn erbyn Menywod a Merched ar 25 Tachwedd (sydd hefyd yn Ddiwrnod y Rhuban Gwyn), a bydd hyn yn rhedeg am 16 diwrnod hyd at Ddiwrnod Hawliau Dynol ar 10 Rhagfyr. Rydym wedi ceisio alinio'r ddwy ymgyrch trwy binio Rhuban Gwyn i'r sashiau oren hefyd.

Cymerodd cydweithwyr gwrywaidd yn y Daith Gerdded i Swyddogion 'Milltir yn ei Hesgidiau Hi'.

Mae'r Cyngor wedi bod yn hyrwyddo ymgyrch cyfryngau cymdeithasol weithredol sy'n rhedeg o 23 Tachwedd tan 10 Rhagfyr, gyda'r hashnod #rhubangwynCaerdyddarFro Mae gwybodaeth am ymgyrch y Rhuban Gwyn a digwyddiadau lleol hefyd wedi'i rhannu ar Fewnrwyd y Cyngor.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Lay*

Allwn ni sicrhau bod yr holl wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd mewn mannau megis Hybiau?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Rwy'n cytuno'n llwyr, a byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn gwirio bod yr holl wybodaeth honno ar gael. Hoffwn nodi hefyd ein swyddogion sydd wrthi'n gweithio gyda grwpiau megis plant ysgol, Afancod a Chybiau i gyfleu pwysigrwydd y neges honno i blant ifanc.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Robson*

Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i benodi'n ffurfiol Aelod Cabinet yn Hyrwyddwr Anabledd a Chynhwysiant y Cyngor?

Ateb - *Y Cynghorydd Weaver*

Fel y byddwch yn cofio, cytunodd y Cabinet ym mis Gorffennaf y llynedd i amsugno a phrif ffrydio rolau Prif Aelod neu Hyrwyddwr Aelodau o fewn cyfrifoldebau portffolio Aelodau Cabinet perthnasol.

Fel yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o fy mhortffolio i.
Rwyf wedi ymrwymo'n gryf i weithio gyda swyddogion y Cyngor ac Aelodau i greu cydraddoldeb i bawb.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Robson*

Rwyf wedi mynychu cwpl o gyfarfodydd pwyllgorau lle mae materion ynghylch problemau mae grwpiau anabl wedi'u cael wedi'u codi o wahanol bortffolios. Felly'r hyn rwy'n ceisio sicrwydd ar ei gyfer yw bod pwyslais trawsbynciol ar helpu'r rheiny sydd ag anabledd a mynediad at wasanaethau lle bod gan y Cyngor naill ai cyfrifoldeb uniongyrchol neu hyd yn oed cyfrifoldebau anuniongyrchol.

Cafodd Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd sesiwn da iawn gyda'r materion ynghylch tacsis sy'n anuniongyrchol. Bydd y Cynghorydd Bradbury yn cofio'r mater ynghylch baw cŵn lle cododd y Cŵn Tywys ar gyfer y Dall bryderon, rwy'n ymwybodol bod hynny'n drawsbynciol ym mhob rhan o'r Cyngor cyfan.

Rwy’n gwerthfawrogi mai eich portffolio chi yw e ond oes angen hyrwyddwr ailgyflwyno hyrwyddo yn y maes hwn?

Ateb - *Y Cynghorydd Weaver*

Un peth y byddwn yn rhoi sicrwydd i chi amdano, mae pob Aelod Cabinet yn deall bod gan bawb rôl i’w chwarae o ran ei wasanaeth. Pryd bynnag rydym yn clywed gwybodaeth am broblem mae angen ei datrys neu rywle y gallen ni wella byddai pob Aelod Cabinet yn cymryd hynny o ddifrif.

Rwy’n meddwl bod y rolau Hyrwyddwr Aelodau wedi’u hamsugno ym Mhortffolios y Cabinet yn gwneud synnwyr. Bydd wastad heriau gyda’r rheiny sy’n, fel y dywedwch, drawsbynciol iawn lle y gall gwybodaeth yn dod ohonynt. Rwy’n gobeithio eich bod wedi codi hyn gydag Aelodau cabinet eraill yn ogystal gan ei bod bob amser yn dda clywed adborth o bob rhan o’r ddinas.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Taylor*

Yn dilyn y cyhoeddiad y bydd Llywodraeth Cymru bellach yn talu 65% o gostau cynlluniau Band B y Cyngor, pa oblygiadau y mae hyn yn eu cael ar unrhyw arbedion posibl Cyngor Caerdydd?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Mae’r Cyngor wrthi’n trafod gyda Llywodraeth Cymru am oblygiadau'r newid i gyfraddau ymyrryd ar Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Gan nad yw swm y cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu ar yr adeg hon, mae’r Cyngor yn ceisio eglurhad o'r effaith y bydd y newid hwn i’r gyfradd yn ei chael ar broffilio cyfalaf y rhaglen arfaethedig.

Mae’r Cyngor yn ariannu ei gyfran o gyfalaf y rhaglen trwy fenthyca darbodus a thrwy dderbynebau cyfalaf a geir trwy waredu safleoedd dros ben. Ar y cam cynnar hwn, nid yw’n glir beth allai’r union effaith ar arbedion posibl fod.

Cwestiwn Atodol - *Y Cynghorydd Taylor*

Os oes arian i'w arbed fy nealltwriaeth i yw y gallen ni fod yn edrych ar filiynau o bunnoedd o ran costau o flaen llaw. Fyddwn ni am ddatblygu cynlluniau newydd yn benodol i'r ysgolion Categori C hynny ac i wireddu datblygiadau diweddar o ran cynyddu capasiti yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghanol a gogledd y ddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Merry*

Rwy’n gobeithio y bydd amgylchiadau yn y dyfodol yn well fel y gallwn gael y sgwrs honno. Yr hyn sy’n pryderu fi yw'r awgrymiad y gallai band B gael ei ymestyn. I fi, mewn gwirionedd mae ymestyn band B yn rhoi ysgolion yn ôl i fand C. Dyma fy nealltwriaeth i ar hyn o bryd.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Kelloway*

Allai'r aelod cabinet roi diweddariad i ni ar y cynlluniau ar gyfer canolfan ailgylchu newydd yng ngogledd y ddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Mae swyddogion wrthi'n adolygu'r achos busnes a dewisiadau o ran lleoliad ar gyfer canolfan ailgylchu newydd a byddant yn gwneud argymhellion i'r Cabinet yn y Flwyddyn Newydd.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Kelloway*

Mae hynny'n newyddion calonogol. Mae naw mis wedi bod ers cau Heol Wedal. Addawyd canolfan newydd i drigolion yng ngogledd y ddinas.

Pam rydych wedi methu dod o hyd i safle a pham nad yw'r gweithredu eto?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Ar hyn o bryd rwy'n edrych am safle yn yr Eglwys Newydd, Rhiwbeina, Llanisien a Chyncoed – rhan fwyaf o ogledd Caerdydd. Pan fyddwn wedi lleoli safle byddaf yn rhoi gwybod i chi.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Boyle*

Mae pris  cyfranddaliadau IQE, a dderbyniodd bron i £40m o arian Bargen Ddinesig, wedi gostwng gan oddeutu 55% yn y flwyddyn ddiwethaf. Pa mor gadarn oedd yr asesiad o'i fodel busnes a phwy, o Gyngor Caerdydd, sancsiynwyd y buddsoddiad?

Ateb – *Y Cynghorydd Huw Thomas*

Nid Cyngor Caerdydd a sancsiynwyd y buddsoddiad, Cyd-Gabinet y Fargen Ddinesig a ddeliodd â'r mater hwn. Er y cofnodion rwy'n deall y cymerwyd y bleidlais ar 2 Mai 2017, ni phleidleisiodd Caerdydd.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Boyle*

Mae'n swnio yn y datganiad hwnnw i gydgyfrifoldeb Cabinet y Brifddinas-ranbarth farw.

Rhaid i ni obeithio y gall IQE ddod o hyd i'r gwerthwyr byr trwy Brexit, gallai cystadleuwyr yn Asia, diffygion ariannol ac ati wrth gwrs beryglu'r sefyllfa'n fwy, ond os bydd pethau yn parhau i fynd o chwith gofynnir cwestiynau am y prosesau sy'n tanseilio'r penderfyniadau hyn, ac yn benodol pa ddiwydrwydd dyladwy a gymerwyd a gan bwy.

Ydych chi'n fodlon yr oedd bargen IQE yn destun craffu digonol ac os felly pam na ragwelwyd y gostyngiad enfawr hwn ym mhris y cyfrandaliadau?

Ateb – *Y Cynghorydd Huw Thomas*

Rwy’n eich bod mewn perygl o gael enw da fel rhywun sy’n rhagweld trychineb o ystyried eich cwestiwn ar fy natganiad hefyd.

Mae’n werth nodi bod prif gyfranddaliadau IQE ar hyn o bryd tua’r un swm â’r pris cyfranddaliadau ar yr adeg y penderfynodd y Fargen Ddinesig fuddsoddi yn y ffowndri lled-ddargludydd hylosgi, sy’n broject wrth gwrs sydd â llawer mwy o randeiliaid nag IQE yn unig. Rwy’n meddwl, wrth edrych ar IQE yn y rownd, y byddwch yn gweld ei fod yn gwmni sydd mewn iechyd da gydag asedau o fwy na £30 miliwn eleni, a phan edrychwch ar y fargen fuddsoddi, roedd rhesymau da gan Gaerdydd dros beidio â phleidleisio ar yr adeg yn benodol o ran amseru'r penderfyniad lle gwnaethpwyd y penderfyniad 2 ddiwrnod cyn etholiad lleol. Fodd bynnag rwy’n credu bod y diwydrwydd dyladwy ynghylch y broses wedi bod yn gadarn, bydd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru’n bodloni ei hun ar yr achos hwnnw hefyd ac yn y pen draw yr hyn rydym yn edrych arno yw cynnig, ar gyfer ymrwymiad o £38miliwn rydym yn datgloi bron i £400miliwn o fuddsoddiad sector preifat gyda’r cyfle i greu diwydiant a busnes sy'n edrych i'r dyfodol yn ne Cymru ac yn fy marn i dylen ni i gyd fod yn gefnogol dros hynny ac rwy'n credu y dylen ni edrych ar y darlun llawn yn hytrach nag edrych ar rai penawdau.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Kelloway*

Allai’r Aelod Cabinet roi diweddariad i ni ar newidiadau i ddarpariaeth gofal yng Nghartref Gofal Sunrise Cyncoed?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Mae Sunrise Senior Living yn ddarparwr cartref nyrsio a phreswyl yng Nghyncoed, Caerdydd ac wedi'i gofrestri gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 107 o welyau. Ar hyn o bryd, mae 14 unigolyn wedi’u lleoli yn y cartref gan Wasanaethau Cymdeithasol Caerdydd y mae 8 ohonynt yn derbyn gofal preswyl ac y mae 6 ohonynt yn derbyn gofal nyrsio. Mae hefyd 12 unigolyn sy’n ariannu eu hunain sy’n derbyn gofal nyrsio.

O ganlyniad i anallu’r darparwr cofrestredig i recriwtio'r staff nyrsio o ansawdd sy'n angenrheidiol i fynd i’r afael â phryderon a godwyd gan archwiliadau Arolygiaeth Gofal Cymru ac aseswyr nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, penderfynodd y darparwr atal gofal nyrsio. Bydd y cartref gofal yn parhau i weithredu fel darparwr gofal preswyl yn unig.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Kelloway*

Er eglurhad pa gamau’r Democratiaid Rhyddfrydol oeddech chi’n cyfeirio atynt ond hefyd pa na rybuddiodd y Cyngor aelodau Ward am y ffaith y byddai adran nyrsio Cartref Gofal Sunrise yn cau’n fuan nes y dywedwyd wrth drigolion i adael gyda dim ond 30 diwrnod o rybudd ac ydy’r Cyngor wedi sicrhau llety arall addas i’r rheiny a effeithiwyd?

Ateb – *Y Cynghorydd Elsmore*

Yr hyn mae wir angen ei ddeall yw sensitifrwydd y sefyllfa. Hefyd er y cofnodion y cyfrifoldeb. Dyma ddarparwr gofal annibynnol sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Caiff y gofal nyrsio ei ddarparu a'i gomisiynu trwy'r bwrdd Iechyd. Mae ein rôl fel yr awdurdod diogelu, rydym hefyd yn comisiynu rhai o welyau.

Rwy'n hapus cael trafodaethau ar-lein ond ni fyddaf yn manylu ar bryd, ble a beth. Yr hyn sy'n bwysig iawn a'r hyn rwyf eisiau ei osgoi wrth fynd ymlaen, yn benodol os oes gennym bryderon yn ein marchnad, yn benodol mewn perthynas â gofal nyrsio yw bod gennym brosesau tryloyw a chadarn y gall Aelodau Ward lleol ddibynnu arnynt.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Molik*

Awgrymodd CDLl Caerdydd bwysigrwydd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn cymunedau ar dir cynllunio. Yw'n iawn i swyddogion cynllunio a'r pwyllgor cynllunio trin yr holl ardaloedd yn yr un ffordd gan roi'r un polisi ar waith a diystyru gwahaniaethau mewn demograffeg y boblogaeth a darpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal h.y. ddylid dosbarthu Cyncoed yr un peth ag ardaloedd eraill yng nghanol y ddinas?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

Diben Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y CDLl oedd creu offer lefel uchel a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Cynllun i sicrhau bod ei bolisïau a'i gynigion yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar unrhyw grwpiau a ddiogelir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 na'u gwahaniaethu.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Molik*

Fy mhryder i oedd ydyn ni ond yn cymeradwyo'n ffuantus y polisïau hynny a'r Ddeddf Cydraddoldeb oherwydd gyda Chyncoed yn cael ei drin yn yr un ffordd â llawer o wardiau eraill yng nghanol dinas Caerdydd lle rydym yn gwybod bod demograffeg hŷn gennym, rydym yn gwybod nad yw'r bysus yn cyrraedd rhannau penodol o Gyncoed ac os ydynt yn eu cyrraedd maent naill ai bob hanner awr neu bob awr o gymharu i wardiau eraill sydd â bysus sy'n dod bob 5 i 10 munud yn dod i mewn i'r wardiau.

Yw'n iawn i Gyncoed gael ei weld yn yr un ffordd â wardiau eraill yng nghanol Caerdydd?

Ymateb – *Y Cynghorydd Wild*

O ran asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb y CDLl byddai'n broblematig dewis pob stryd a phob ward a'i drin mewn ffordd wahanol ledled Caerdydd oherwydd mae pob math o grwpiau nodwedd a ddiogelir gwahanol. Byddai bron yn amhosibl ei chael yn iawn. O ran materion eraill ynghylch tai a thrafnidiaeth, rwy'n hapus trafod hynny. Mae strategaeth tai ar y ffordd y bydd diddordeb gennych chi a'ch trigolion ynddi.

Cwestiwn - *Y Cynghorydd Parkhill*

Ydych chi'n credu ei bod yn dderbyniol na chasglwyd bagiau hylendid yn cynnwys baw dynol am 3 diwrnod yn Llanisien a Draenen Pen-y-graig yr wythnos hon?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau o beidio â chasglu'n dderbyniol.
Yn anffodus, o ganlyniad i gerbyd yn torri i lawr ddydd Gwener 23 Tachwedd nid oedd yn bosibl cwblhau'r casgliadau hylendid yn Llanisien a Draenen Pen-y-graig.

Casglwyd y gwastraff y diwrnod gwaith nesaf sef dydd Llun 26 Tachwedd.
Pan na chesglir gwastraff hylendid am unrhyw reswm, ein nod yw ei gasglu o fewn 2 ddiwrnod gwaith ac, ar yr achlysur hwn, bodlonon ni safonau ein gwasanaeth. Fodd bynnag, rwy'n gwerthfawrogi, pan fo materion gweithredol ar ddydd Gwener, gallai hyn olygu na chesglir y gwastraff dros y penwythnos.

Cwestiwn Atodol – *Y Cynghorydd Parkhill*

Gan fod gan y Cyngor ei gyfleusterau cynnal a chadw cerbydau ei hun, ydy'r trefniadau gwasanaethu sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas ar sail nifer y casgliadau y ymddangosir iddynt gael eu methu'n rheolaidd ledled y ddinas?

Ateb – *Y Cynghorydd Michael*

Nid yw'r Cyngor yn rhedeg ei gyfleusterau gwasanaethu ei hun. Maent dan gontract gydag ein llogwr ar hyn o bryd. Bydd hyn yn newid yn y dyfodol ond yn anffodus nid yw ar gael ar hyn o bryd.

Cwestiwn – *Y Cynghorydd Hudson*

Ydy'r Cyngor yn ymchwilio i drosglwyddo ein holl gaeau chwaraeon gwyrdd i glybiau hamdden ar brydlesi hir?

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Nad ydy.

Cwestiwn Ategol – *Y Cynghorydd Hudson*

Mewn gwirionedd rydym yn colli rheolaeth o'n mannau gwyrdd. Ydy hyn yn wir yr hyn mae'r Cyngor ei eisiau i ddinas Caerdydd neu'n fwy penodol ei ganiatáu?

Ateb – *Y Cynghorydd Bradbury*

Fel Cynghorydd profiadol dylai hi wybod na allai hi wneud honiadau fel yr un mae hi wedi'i wneud heb unrhyw dystiolaeth. Rwy'n dyfalu ei bo yn edrych ar ddogfen ymgynghori ar y gyllideb sy'n dweud "rydym yn parhau i drosglwyddo adeiladau chwaraeon i glybiau chwaraeon lleol", rhywbeth sy'n wedi bod ar y gweill ers sawl blwyddyn ers dechrau llymder. Nid oes unrhyw gynlluniau o gwbl i drosglwyddo ein

mannau gwyrdd ac nid oed cynnig yma i wneud felly a heb lymder ni fydden ni'n ymchwilio i drosglwyddo adeiladau chwaraeon chwaith, ond pwy sydd ar fai am hynny - nid fy ochr i, ond dy ochr di.

108 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod yn y cyfarfod hwn.

109 : BWS CAERDYDD - PENODI CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL ANNIBYNNOL

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried newid cynrychiolwyr penodedig Bws Caerdydd y Cyngor, gan gynnwys penodi dau Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol.

PENDERFYNWYD –

1. Cymeradwyo lleihau nifer y swyddi Cyfarwyddwr Anweithredol a neilltuir ar gyfer penodi Cynghorwyr i Fwrdd Gwasanaethau Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig o saith i bump;

2. Cadarnhau penodi pum Cynghorwr i wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol Gwasanaeth Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig a gofyn am enwebiadau gan Grwpiau Plaid gan eu hadrodd yn y cyfarfod nesaf.

3. Yn amodol ar newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cwmni, cymeradwyo neilltuo dwy swydd Cyfarwyddwr Anweithredol er mwyn penodi personau annibynnol i Fwrdd Gwasanaeth Trafnidiaeth Dinas Caerdydd Cyfyngedig (h.y. nad ydynt yn Aelodau Etholedig y Cyngor na'n gyflogeion y Cyngor neu'r Cwmni);

4. Yn amodol ar y newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cwmni, cymeradwyo penodi dau Gyfarwyddwr Anweithredol (i gael eu dewis fel y nodir yn argymhelliad 5) ar sail dros dro am gyfnod o 12 mis;

5. Yn amodol ar newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cwmni, cytuno dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, i gaffael dau unigolyn cymwys addas i wasanaethau fel y Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol dros dro;

6. Yn amodol ar newidiadau arfaethedig i Erthyglau'r Cwmni, cytuno dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith a'r Swyddog Monitro i ymgymryd â phroses penodi gyhoeddus yn 2019/20 ar gyfer y ddwy swydd Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol a goruchwylio'r broses creu rhestr fer a chyfweld ar gyfer y penodiadau ar sail sefydlu Panel Aelod sy'n wleidyddol cytbwys;

7. Nodi bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau yn parhau i gyflawni rôl y Cyngor fel Rhanddeiliad Gwasanaeth Trafnidiaeth Dinas Caerdydd

Cyfyngedig.

110 : PENODIADAU LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 19 Tachwedd 2018.

PENDERFYNWYD –

1. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd Wag | Cymeradwywyd y Penodiad gan |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | Gabalfa | 12/07/2018 | Antony Powell |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | Trowbridge | 24/10/2018 | Ruth Morgan |
| Ysgol Gynradd Glan-yr-Afon | Llanrhymni | 28/03/2018 | Jean Fudge |
| Ysgol Uwchradd Llanisien | Llanisien | 27/09/2018 | Cyng. John Lancaster |
| Ysgol Gynradd Parc Ninian | Grangetown | 06/03/2018 | Joseph Edwards |
| Ysgol Gynradd Pontprennau | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | 31/08/2018<br>21/09/2018 | John Morley<br>Suzannah Edmondson |
| Ysgol Gynradd Parc y Rhath | Plasnewydd | 03/10/2018 | Bethan Proctor |
| Ysgol Gynradd Springwood | Pen-twyn | 13/02/2018 | Siân Sarwar |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | Pen-y-lan | 22/01/2018 | Cadan ap Tomos |

2. y dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

| Ysgol | Ward | Dechrau'r Swydd Wag | Cymeradwywyd y Penodiad gan |
|---|---|---|---|
| Ffederasiwn Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Trowbridge | Tredelerch a Trowbridge | 08/01/18<br>08/01/18<br>08/01/18<br>08/01/18 | Sean Colsey<br>Emily Daly<br>Korin Jones<br>Emma Tobutt |
| Ysgol Gynradd Bryn Deri | Radur a Phentre-Poeth | 01/01/19 | Angharad Thomas Richards |
| Ysgol Gynradd | Llanisien | 30/01/19 | Sara Beal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gatholig Crist y Brenin | | | |
| Ysgol Gynradd Gabalfa | Ystum Taf | 27/03/19 | Y Cyng. Dilwar Ali |
| Ysgol Feithrin Grangetown | Grangetown | 27/03/19 | Wendy Thomas |
| Ysgol Gynradd Grangetown | Grangetown | 30/01/19 | Jeff Hobden |
| Ysgol Gynradd Herbert Thompson | Trelái | 25/03/19 | Barbara Cooke |
| Ysgol Gynradd Kitchener | Glan-yr-afon | 26/02/19 | Gwilym Owen |
| Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn | Llanrhymni | 27/03/19 | Claire Deguara |
| Ysgol Gynradd Gatholig San Pedr | Plasnewydd | 26/02/19 | Julia Houlston Clarke |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | Llandaf | 28/01/19 | Susan Golding |
| Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth Garth | Pentyrch | 25/01/19 | Sara Brown |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf | Ystum Taf | 15/12/18 | Hefin Jones |
| Ysgol Pen-y-Pîl | Trowbridge | 26/03/19 | Sian Poole |

111 : PENODI CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR I GYRFF ALLANOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau oedd wedi'i dderbyn gan Grwpiau Plaid i swyddi gwag fel y'i nodwyd ar y daflen ddiwygiad.

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r enwebiadau canlynol fel cynrychiolwyr Cyngor Caerdydd i Gyrff Allanol:

| **Corff** | **Penodiad** |
|---|---|
| Grassroots(Cardiff) Ltd | Y Cynghorydd Norma Mackie |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog dros Addysg Grefyddol (SACRE) | Y Cynghorydd Fenella Bowden |

112 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor derbyniwyd Cwestiynau Ysgrifenedig i'w hystyried ac roedd ymatebion wedi'u cyhoeddi.

*Daeth y cyfarfod i ben am 21.00pm.*